**MUDIAD CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU**

**IS-BWYLLGOR CYLLID A RHEOLI**
**DYDD MAWRTH 5 EBRILL, 2022**
**ZOOM, 7.00yh**

# COFNODION

---

**CADEIRYDD:** Iwan Meirion **IS-GADEIRYDD:** Caryl Haf

**PRESENNOL:** Caryl Haf (Cadeirydd y Cyngor), Kathryn Jones (Arbennigwr Pwyllgor), Katie Davies (Cyn Gadeirydd y Cyngor), Hefin Evans (Is-Gadeirydd y Cyngor), Dewi Davies (Is-Gadeirydd Materion Gwledig), Iwan Meirion Is-Gadeirydd Cyllid a Rheoli), William Jones (Cadeirydd Materion Gwledig), Hilary Jones (Arbennigwr Pwyllgor), Sian Healey (Cadeirydd Cystadlaethau), Malcolm Thomas (Arbennigwr Pwyllgor), Elliw Griffith (Is-Gadeirydd Digwyddiadau a Marchnata) & Aled Thomas (Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata).

**IN ATTENDANCE:** Phil Ellis (Prif Weithredwr CFfI Cymru) a Claire Powell (CffI Cymru)

**FM/30/1922 CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Croesawodd Iwan Meirion bawb i'r cyfarfod ac estynodd longyfarchiadau i Caryl Haf ar enedigaeth ei mab.

**FM/31/1922 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Steve Hughson, Nerys Lewis, Caitlin Harley a Sioned Davies

**FM/32/1922 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFODYDD DIWETHAF – 25 IONAWR A 14 CHWEFROR 2022.**

Cafodd y Cofnodion eu cylchredeg cyn y cyfarfod a cawsant eu cadarnhau fel record gwir a chywir o'r cyfarfod.

**FM/33/1922 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION**

| GWEITHRED | SYLWADAU |
|---|---|
| **Pwynt 1**<br>Claire Powell i roi gwybod i'r pwyllgor mor gynted a dderbynir yr arian gan Gymdeithas y Sioe Frenhinol. Fe fydd rhaid i'r arian o Gronfa | Mae'r arian wedi'i dalu 'nol i'r ymddiriedolaeth. |

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Terence Meredith gael ei gadw fel cronfa gyfyngedig. | |
| **Pwynt 2**<br>Y Grŵp Adeilad i gydymffurfio costau llawn prosiect yr adeilad cyn trefnu unrhyw wariant. | I'w drafod yn adroddiad Grŵp yr Adeilad. |
| **Pwynt 3**<br>Llythyr i'w ddanfon i bob cwmni ac unigolion a roddodd tuag at ymgyrch 'Prynu Bric'. | Llythyr mewn ffurf drafft. |
| **Pwynt 4**<br>I yrru Office 365 yn ei flaen. | Office 365 ar ei ffordd ar hyn o bryd. |

| **GWEITHRED** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| **Pwynt 1**<br>Claire Powell i ddiweddaru cyllideb y PI a'i gylchredeg cyn y Cyngor. | Wedi ei gyflawni. |
| **Point 2**<br>Phil i ysgrifennu llythyr i Sara E Llewelyn Jones ynglyn a Chronfa Ymddiriedolaeth Terrence Meredith. | Llythyr wedi'i ddrafftio. |

**FM/34/1922 GOHEBIAETH**

Dim.

**FM/35/1922 DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD A GWAITH YN CAEL EI WNEUD GAN MENTER A BUSNES.**

Mae strategaeth Marchnata ar ei ffordd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodwyd fod cyflymder yr adolygiad a gwaith arall yn siomedig. Mae cyfarfod er mwyn dal i fyny rhwng Menter a CFfI Cymru wedi cael ei drefnu ac fe fydd rhagor i'w fynegi yn y cyfarfod nesaf.

**FM/36/1922 ADRODDIAD Y GRŴP ADEILAD**

Adroddodd Dafydd y bod y grŵp wedi cyfarfod yn ddiweddar a bod lluniau o'r adeilwaith posibl wedi cael eu cylchredeg i'r Siroedd am adborth. Mae llythyr wedi ei ddrafftio yn barod i'w ddanfon allan i bawb a roddodd tuag at 'Prynu Bric'. Mae'r Grŵp yn edrych i weld beth mae aelodau eisiau o'r adeilad a sut maent yn dymuno i'r adeilad gael ei ddefnyddio.

**FM/37/1922 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd Claire Powell yr adroddiad cyllid a dechrau drwy nodi balans y cyfrifon banc presennol ac fe fyddai arian dros ben ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2022. 'Roedd y cyllidebau mewn ffurf drafft ac fe fyddant o flaen y cyfarfod nesaf i'w arbrofi.

Grantiau – Mae grant y NVYO o £30,000 am y flwyddyn hyn wedi cael ei dalu yn llawn. Mae Claire wedi siarad gyda Llywodraeth Cymru ynglyn a ddim gwariant ar y Gronfa Adferiad Diwyllianol Rhan 1 a diweddariad ar y cynllun i ddefnyddio'r arian. Adroddwyd fod grant y Prif Ddigwyddiadau yn or-danysgrifedig am y flwyddyn hon ond fe fydd angen trafodaethau pellach ynglyn a phrosiectau yn y dyfodol.

Nawdd – mae'r noddwyr canlynol wedi cae eu cytuno:

- Aelod y Flwyddyn – Cyfreithwyr JCP
- Diwrnod Maes – Wynnstay
- Cystadleuaeth Diogelu Fferm – Menter a Busnes
- PI a CAFC – Massey
- Tynnu'r Gelyn a Rygbi 7 - NFU

Mae rhagor o waith yn cael ei wneud gyda cwmnioedd a sefydliadau eraill.

Y Pentref Ieuenctid – nodwyd fod gwaith yn mynd ymlaen gyda'r isadeiledd yn dod at'i gilydd yn dda.

**FM/38/1922 ADRODDIAD GAN PRIF WEITHREDWR CFfI**

Nododd Phil fod cais i WCVA am Swyddog Codi Arian wedi bod yn llwyddianus. Mae disgrifiad swydd yn cael ei baratoi. Fe fydd y rol yma yn gyfrifol am gael incwm ac ariannu.

Mae Phil wedi bod yn siarad gyda amryw o ddarparwyr hyfforddiant i ardystio gwaith sy'n cael ei wneud gan aelodau CFfI ar hyn o bryd. Mae eisiau adrych ar ariannu hyn a sut i reoli'r broses.

Mae lleoliadau Eisteddfod wedi cael eu trafod gyda phwyllgor Cystadlaethau a mater y gost yn erbyn y safle. Mae hyn yn awr yn cael ei ddanfon yn ôl i'r Siroedd i gael trafodaeth bellach. Nodwyd fod y mater yma wedi cael ei drafod a'i gytuno'n flaenorol ac ni ddylid ei drafod eto mor gynnar. Cytunwyd y byddai Iwan yn mynychu cyfarfod nesaf pwyllgor Cystadlaethau i esbonio'r penderfyniad ariannol y safleoedd penodedig.

'Roedd trafodaethau wedi cymryd lle gyda Llywodraeth Cymru ynglyn a iechyd meddwl a gwaith yn y gymuned.

**FM/39/1922** **EITEMAU AGENDA A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 7 MEHEFIN 2022**

Cadarnhawyd y dyddiad fel 7 Mehefin. Cytunwyd i gael fformat wedi'i osod i adroddiad y Prif Weithredwr ac i'r agenda i gynnwys adroddiad y Grŵp Adeilad.

.

**FM/40/1922** **UNRHYW FUSNES ARALL**

**Cynlluniau'r Adeilad** – nodwyd fod y cynlluniau presennol braidd yn ddryslyd.

**CRYNODEB O WEITHREDOEDD**

| **GWEITHRED** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| **Pwynt 1** Cyllidebau | |
| **Pwynt 2** Phil i ddanfon llythyr at Sara E Llewelyn Jones ynglyn a Chronfa Ymddiriedolaeth Terrence Meredith. | |
| **Pwynt 3** Llythyr 'Prynu Bric' **i**'w ddanfon i'r rhoddwyr i gyd. | |

**Llofnod: ..... Dyddiedig: .....**